# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

# Adroddiad ar ansawdd addysg yn
# Ysgol Gynradd Llanaelhaearn
# Llanaelhaearn
# Gwynedd
# LL54 5AL

**Rhif yr ysgol: 6612059**

**Dyddiad yr arolygiad: 05/10/09**

**gan**

**Gwilym Trebor Roberts**
**78291**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/12/09**

**O dan rif contract Estyn: 1100509**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

91. Cydymffurfia'r ysgol â'r gofyn statudol i gynnal addoliad ar y cyd yn ddyddiol. Mae'r cyfarfodydd addoli ar y cyd ynghyd â gwersi addysg grefyddol yn hybu datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda. Mae'r ysgol hefyd yn hybu datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol, sydd wedi eu hymgorffori i ddarpariaeth trawsgwricwlaidd, ynghyd â sesiynau amser cylch, yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion yn dda. Mae'r Cyngor Ysgol yn llais cydwybodol i safbwyntiau'r disgyblion am y materion sydd o bwys iddynt.

## Addysg grefyddol

### Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
### Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

### Nodweddion rhagorol

204. Mae gan lawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wybodaeth a dealltwriaeth ragorol o arferion, seremonïau a dathliadau Cristnogaeth ac hefyd rhai o grefyddau eraill y byd.

205. Gwyddant am bwysigrwydd pererindod i gredinwyr ac mae eu gwybodaeth am fannau pererindota'r crefyddau amrywiol yn rhagorol.

### Nodweddion da

206. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ysbryd ymchwilgar a chwilfrydig ac maent yn teimlo'n hyderus i godi cwestiynau o'u profiad personol a chrefyddol.

207. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn trafod yn dda egwyddorion megis cyfeillgarwch, goddefgarwch, gofal dros eraill ac ymddygiad tuag at ei gilydd.

208. Maent yn ymwybodol o arwyddocâd bedydd i'r Cristion a gallant drafod defod bedydd a rhan y bedyddfaen.

209. Mae'r holl ddisgyblion wedi ymweld ag addoldai a thrafodant yn hyderus eu nodweddion a'u pwrpas.

210. Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wybodaeth dda am lawer o storïau o'r Beibl. Gall llawer o'r disgyblion hŷn ddadansoddi, dehongli a chymhwyso'r straeon i fywyd pob dydd yn dda.

211. Dealla disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gynyddol gysyniadau megis cydwybod, maddeuant ac ufudd-dod a dangosant ymwybyddiaeth gadarn o effaith a dylanwad cred ar gredinwyr.

212. Trwy eu hymdrechion i gasglu arian a chefnogi elusennau cenedlaethol a rhyng-genedlaethol, daw'r disgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 yn ymwybodol eu bod yn rhan o gymuned fyd eang a bod ganddynt gyfrifoldeb tuag at eu cyd-ddyn.

### Diffygion

213. Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.